**MUNUDAU O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAID GLYN CEIRIOG**

**:Ar yr 3ydd o Fawrth 2025 yn Hedyn Mwstard**

PRESENNOL; Cyng. Sarah Davies (Cadair) Trevor Bates; Richard Jones; Elinor Jones; Eric Jones; Jonathan Pritchard; Phillip Lloyd; Christina Brewin (AC); Jean Davies – Clerc

| Rhif Agenda | Manylion | MUNUDAU | |
|---|---|---|---|
| 1 | **Croeso ac ymddiheuriadau** | Croesawodd Cyng. Davies pawb i'r Cyngor.<br><br>Ymddiheuriadau: Barbara Roberts; Jane Bates:<br><br>Cyngor yma wedi cael ei gohirio o'r 25ain o Chwefror | |
| 2. | **Sgwrs a'r Heddlu** | Nid oedd yr Heddlu yn bresennol ond roedd SCCH Jones wedi anfon ffigyrau troseddu'r Dyffryn i gyd fel y canlyn:-<br><br>1 x ymddygiad anghymdeithasol: 2 x Hela llwnyog anghyfreithlon; 4 x damwain ffordd (oherwydd y tywydd) 1 x digwyddiad domestig | . |
| 3. | **Sgwrs gyda'r Asiant Cymuned** | Dywedodd Ms Brewin bod ei gwaith yn gyson ar hyn o bryd. Roedd digwyddiad wedi ei drefnu gan SCCH Griffiths yn Neuadd Oliver Jones Heddiw. Dywedodd ei bod yn ceisio helpu person sydd wedi gwneud cais am fathodyn glas ond bod angen iddi fynd i Wrecsam. i brofi nad yw yn gallu cerdded. Toes dim cadair olwyn ar gael a dim lle parcio arbennig sydd yn anodd iawn i'r rheini ac anawsterau symud. Clerc I e-bostio CBSW am hyn | |
| 4. | **Mynegiant o Ddiddordeb** | Cyng Bates – cynllunio | |
| 5. | **Cadarnhad o Funudau** | Cadarnhawyd y munudau yn gywir ac arwyddwyd. (Ionawr) | |
| 6 | **Materion yn Codi** | **Ymateb gan AS/AS am ystorm Darragh-** Clerc wedi ysgrifennu at Aelod Senedd ac Aelod Seneddol – wedi ymateb gan yr AS Steven Wetherdon yn dweud ei fod yn cytuno yn llwyr hefo pryderon oedd wedi eu codi yn y llythyr. Roedd am ofyn I Open Reach cael mwy o batteries ar gael. Hefyd roedd am geisio datrys y broblem o ddiffyg gwe' ffon a.y.b.. ar ôl ystormydd tra yn AS.<br><br>**Cymru Mewn Blodau;** Clerc yn ceisio trefnu dyddiad i gyfarfod a swyddogion o CBSW Ynglŷn â grantiau ar gael. Hefyd am sôn yn Glyn News eto am y cynlluniau i blannu blodau ar y glaswellt o flaen y Gamer.<br><br>**Unrhyw Fater arall -** dim mater arall | |
| 7. | **Adroddiad Cynghorydd Sir** | Dywedodd Cyng. Bates ei fod yn dal i ddisgwyl ymateb yn dilyn ymweliad Steve Withrdon a Llŷr Griffiths.<br><br>Roedd wedi hebrwng Cyng. Mark Pritchard Arweinydd CBSW o gwmpas ffyrdd y Dyffryn I ddangos cyflwr drwg y ffyrdd<br><br>Roedd Cyng. Bates wedi llwyddo i ddal twrch daear oedd yn gwneud niwed i'r cae chwarae.(gwelir 9 isod hefyd)<br><br>Gwaith i gychwyn ar y Wal wrth Bryn Derw am Pandy i gychwyn mis Ebrill | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. | **Adroddiadau** | Dim adroddiadau y mis yma | |
| 9. | **Sgwrs/penderfyniadau** | **Cais gan Glwb Rygbi Bro Gwernant**: roedd y Clerc wedi cael cais gan y clwb Ynglŷn â'r Pafiliwn. Cyng. Bates I gyfarfod ac Einion Davies am hyn<br><br>**Tyrchod yn y cae chwarae**: Roedd y Clerc wedi derbyn e-bost gan Einion Davies yn dweud bod plentyn wedi disgyn a brifo ei droed wrth chwarae Rygbi ar ôl baglu ar dwmpath twrch daear. Roedd Rhys Hughes a Cyng. Bates wedi ceisio datrys y broblem. Serch hyn un ffordd o ddatrys hynny yw i'r twmpath cael eu chwalu cyn pob gem. Cyng. Bates I sôn am hyn wrth sgwrsio ac Einion Davies<br><br>**Toiledau:** oherwydd problemau yn y toiledau roedd y Clerc wedi galw allan Lanes for Drains I geisio datrys hyn. Roeddent wedi gwneud hyn ond yn dweud oherwydd math o beipiau yn dod allan o'r toiledau fydd yn mynd i ddigwydd eto. I ddatrys y broblem roeddent wedi rhoi pris oddeutu £800 a hefyd y gost o blymiwr ar y safle am ddiwrnod. Penderfynwyd monitro'r sefyllfa.<br><br>**Adolygiad o daliadau'r fynwent –** Clerc I ddarparu rhestr o fath o geisiadau, pas swm mae'r cyngor yma yn gofyn am a faint mae cynghorau eraill yn gofyn am<br><br>**Dydd Buddugoliaeth yn Ewrop** – 8fed o Fai – Penderfynwyd gofyn I Barch Cass Meurig arwain gwasanaeth wrth y gofgolofn a hefyd i faner Cymru a Jac yr Undeb cael ei roi i fynnu. Hefyd Baner Ukrain I'w roi ar wal ger y gofgolofn. | |
| 10.. | **Llythyrau o ddiolch** | GVT Newydd | |
| 11. | **Gohebiaeth** | Adroddiad Banc – roedd y Clerc wedi darparu adroddiad cynhwysfawr o'r gwariant i'r Cynghorwyr cafodd ei dderbyn.<br><br>CBSW<br><br>Llywodraeth Cymru -<br><br>Unrhyw gohebith arall – . | |
| 12. | **Cais Cynllunio** | Cais Bryn y Groes – nid oedd Ardal o Harddwch Naturiol yn gwrthwynebu a datblygiad. | |
| 13 | **Taliadau** | **Dan adran 136 (anfonebau a thaliadau eraill)**<br><br>Christina Brewin<br><br>John Keene (toiledau)<br><br>John Keene (Biniau)<br><br>EE CA)<br><br>HMRC<br><br>EDF<br><br>British Gas | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Lanes for Drains<br><br>**Ceisiadau am roddion (adran 137)** | |
| 13 | **Unrhyw fater arall heb ei rhestri** | Swydd Cynghorydd Gwag – swydd wedi ei hysbysu- dyddiad cau 28ain o Ebrill<br><br>Dywedodd Cynghorydd Jones bod dal pryderon a'r ochr ffordd i mewn ac allan o Pandy.  Er Bod rhywfaint o waith wedi cymryd lle nid oedd hyn yn datrys y broblem.  Clerc I e-bostio CBSW eto.<br><br>Ffordd ar hyd yr afon yn Pandy – mae lorïau sydd yn mynd i'r adeilad gwaith carthffosiaeth yn Pandy yn gwneud y llwybr yn fwdlyd iawn.  Clerc I gysylltu â'r YG<br><br>Arwydd i'r Neuadd – roedd sawl person wedi methu ffeindio'r Neuadd yn ddiweddar oherwydd diffyg arwyddion.  Roedd arfer bod arwydd ond roedd wedi ei dynnu lawr oherwydd prydon Iechyd a Diogelwch.  Mae hyn yn rhywbeth mae Pwyllgor y Neuadd am geisio ei ddatrys. | |